

Cofnodion cyfarfod 10/1/2019

Presennol: Y Maer Sharon Evans, Dilys Evans, Eluned Jones, Tony Parry, Alun Price, Carol Rowlands, John Caradog Williams, Cynghorydd Dilwyn Morgan, Lis Puw (*Clerc*).

1. **Croesawyd** yr aelodau gan y Maer a derbyniwyd ymddiheuriadau'r Dirprwy Faer Eifion Roberts, Susan Davies, Ivora Jones ac Edith Roberts.
2. **Buddiant:** Derbyniwyd datganiad buddiant gan y Maer yn eitem 6, y Triathlon, ac ni chymerodd ran yn y drafodaeth.
3. **Cofnodion:** Cadarnhawyd cywirdeb Cofnodion cyfarfod 13/12/18.
4. **Materion y Clerc:**
 - i. E-bostiwyd cynllun diweddaraf y Llywodraeth ar gyfer Cynghorau Cymuned i'r Cynghorau.
 - ii. E-bostiwyd ymgynghoriad ar bolisi gosod tai Gwynedd i sylw'r Cynghorwyr a chytunodd y Clerc i ymateb ar ran y Cyngor Tref.
 - iii. Tynnodd y Clerc sylw'r Cynghorwyr at y rheol yn Rheolau sefydlog y Cyngor am y drefn o siarad ar fater pan fo aelod yn datgan diddordeb.
5. **Cyngor Gwynedd:** Derbyniwyd Adroddiad Dilwyn Morgan, y Cynghorydd Sir. Dywedodd ei fod yn bryder mawr iddo ef a'i gyd-gynghorwyr fod y setliad a roddwyd gan Lywodraeth Lafur Cymru i'r Cynghorau Sir yng Nghymru mor isel eleni; fe fydd hyn yn rhwym o arwain at doriadau, ac anogodd bawb i gymryd rhan yn yr ymgynghoriad ar y math o doriadau y bydd rhaid eu gwneud.

Roedd yn falch o rannu'r wybodaeth y bydd yr ysgol 4-18 oed yn cael yr enw Ysgol Godre'r Berwyn. Theatr Derec Williams fydd yr enw ar y neuadd newydd, a Neuadd Ddawns Buddug James fydd yr enw ar y neuadd dawns.

Roedd wedi cael cyfarfod gyda'r Heddlu gan eu bod yn ymddiheuro am fethu mynychu'r Cyngor, ac roedd wedi dwyn eu sylw at broblem parcio wrth droi mewn at Bro Eryl; mae'r mater bellach yn derbyn sylw'r Warden Traffic.

Bydd y Cynghorydd Dilwyn Morgan yn holi swyddogion am safle addas i osod mainc yn ardal Blaenddol.

Cytunodd y Cyngor gyda'i awgrym i ysgrifennu at Claire Mackintosh am drefnu Ffenestri'r Adfent yn Heol Tegid; roedd nifer o ymwelwyr wedi crwydro ar hyd Y Bala oherwydd y sylw a dderbyniodd y ffenestri ar S4C.

Diolchwyd i'r Cynghorydd am ei adroddiad a'i waith.

6. **Triathlon** Derbyniwyd adroddiad y cynrychiolwyr o'r cyfarfod diwethaf a thrafodwyd llythyr diweddaraf y Trefnwyr. Er y byddid wedi dymuno gweld y dyddiad yn newid i gychwyn Mehefin, cytunwyd i gefnogi cynnal y Triathlon yn Y Bala ar benwythnos olaf Mehefin 2019.

7. **Toiledau Cyhoeddus:** Cynhelir cyfarfod rhwng Cyngor Gwynedd, Cwmni Pum Plwy Penllyn cyf a chynrychiolwyr Cyngor Tref Y Bala i wyntyllu ariannu toiledau'r dref. Enwebwyd Eifion Roberts i gynrychioli'r Cyngor a chytunodd y Clerc i fynychu ar ran y Cyngor hefyd.

8. **Materion Cynllunio:** Cymeradwywyd ceisiadau

- i. **NP5/53/LB64E** – newidiadau mewnol, Capel Saesneg
- ii. **NP5/53/LB67X** – newid cynllun mewnol Aran Buildings

9. **Materion Cyllid:**

- i. Derbyniwyd adroddiad a chofnodion Is-bwyllgor cyllid 19/12/18
- ii. Derbyniwyd y Gyllideb a baratowyd gan yr is-bwyllgor ar gyfer 2019-20
- iii. Cytunwyd i beidio a chodi lefel y Praesept eleni a'i gadw ar £24,000.
- iv. Cyfraniadau Cymunedol – atgoffwyd yr aelodau bod angen i'r rhain ddod i law'r Clerc yn fuan. Un o fwriadau'r Cyngor wrth ddyrannu'r arian ydyw hyrwyddo'r Gymraeg. Mae'n rhaid cynnwys Mantolen neu Ddatganiad Banc diweddar wrth wneud cais.

10. **Gohebiaeth:**

- i. **Cylch yr Iaith** – effaith twristiaeth ar yr iaith. Cytunwyd i adael y mater ar y bwrdd.
- ii. **Heddlu Gogledd Cymru** – derbyniwyd calendar gyda gwybodaeth ar sut i atal twyll.
- iii. **Cylch yr iaith** - Ystyriwyd gohebiaeth am ail-strwythuro Canolfannau Iaith. Mae Llywodraeth Lafur Cymru wedi torri'r grant i Ganolfannau Iaith yng Nghymru ac mae costau staffio wedi cynyddu. Dywedodd y Cyngorydd Sir na fydd lleihad yn y ddarpariaeth ardderchog hon ond fe edrychir ar sut i'w wneud yn fwy cost-effeithiol. Cytunwyd i fynegi gwerthfawrogiad y Cyngor o'r ddarpariaeth arloesol a wneir gan Gyngor Gwynedd trwy'r Canolfannau Iaith.

11. **Partneriaeth Penllyn:** derbyniwyd adroddiad y cynrychiolwyr a nodwyd prysurdeb Canolfan Henblas ar y noson Siopa Hwyr. Mae pob swyddfa wedi ei chymryd ar hyn o bryd ac mae'r ymdrechion i gael grant i wella'r llawr uchaf yn mynd yn eu blaen.

12. **Asedau'r Cyngor:** derbyniwyd gyda diolch adroddiad Carol Rowlands ar eu cyflwr. Diolchwyd i John C Williams am gynnig paentio'r polion baneri ac am sicrhau fod y Ddraig Goch arnynt erbyn Dydd Gŵyl Dewi. Yn dilyn sylwadau yn yr is-bwyllgor Cyllid, mae'r Clerc wedi cysylltu gyda Chyfoeth Naturiol Cymru i ofyn iddynt sicrhau diogelwch y meinciau ar lan yr afon. Cytunwyd i gynnal is-bwyllgor Nadolig cyn hir. **Cytunwyd** i drefnu bod y lloches bws wrth yr Eglwys Gatholig yn cael ei lanhau, ac i geisio mwy o brisiau ar gyfer glanhau rheolaidd, gyda datganiadau priodol ar gyfer Iechyd a Diogelwch. Mae Dilwyn Morgan eisoes wedi glanhau lloches bws y Bull yn wirfoddol, a diolchwyd iddo am wneud hyn.

13. Materion lleol y Cynghorwyr Tref

- i. Cafwyd trafodaeth ar yr adwy newydd o Bro Eryl i'r cae criced a deallwyd fod trafodaethau pellach yn digwydd yn fuan.
- ii. Cytunodd y Cynghorydd Sir i dynnu sylw swyddogion Cyngor Gwynedd at wal a railings a allai syrthio i'r pafin yn heol Arennig.

14. Cadarnhawyd dyddiad a lleoliad y cyfarfod nesaf: 7/2/19 yn yr Henblas